

TUDALEN 18

Cofnodion Pwyllgor Asedau, Prosiectau ac Adnoddau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadleda Zoom ar **3ydd Hydref 2022** am 7.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts, y Dirprwy Faer y Cynghorydd Elin Walker Jones, y Cyng. Janet Abas, Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fata, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Meic Pattison, Cyng Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng John Wyn Williams

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr y Ddinas) Howard Huws (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

64/ 22 YMDDIHEURIADAU

Cyng Nigel Pickavance.

65/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

66/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

67/22 DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYFARWYDDWR DINESIG

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig y newyddion diweddaraf i'r Cyngor ar y prosiectau sy'n mynd rhagddynt a dywedodd y byddai adroddiad ar Nantporth a'r Pier yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD : derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr.

68/22 DERBYN ADRODDIAD AR Y LLEFYDD CHWARAE

Derbyniwyd adroddiad gan Gyngor Gwynedd (*dosbarthwyd ymlaen llaw cyn y cyfarfod*) . Fodd bynnag, teimlai'r Aelodau ei fod yn brin o fanylion a bod rhai rhannau ohono'n amherthnasol, gan ei fod yn cynnwys parciau chwarae y tu allan i ffin Cyngor y Ddinas.

PENDERFYNWYD: sefydlu is-bwyllgor i edrych i mewn i feysydd chwarae'r Ddinas.

69/22 CYMERADWYO NEWID FFFIOEDD Y PIER

Papur wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod. Roedd Ffrindiau Pier Garth Bangor wedi cynnig y dylid adolygu ffioedd mynediad y Pier. Yn dilyn trafodaeth fanwl, teimlwyd bod angen mwy o fanylion.

PENDERFYNWYD: Y Cyfarwyddwr Dinesig i drafod opsiynau gyda Ffrindiau Pier Garth.

70/22 CYMERADWYO GOSOD GWE-GAMERÂU AR Y PIER

Papur wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod .

Dywedodd Cyfarwyddwr y Ddinas mai'r cynnig fyddai gwneud y Pier yn fwy amlwg ar-lein byddai hefyd yn cyflawni diben arall gan y byddai'n darparu diogelwch ychwanegol.

PENDERFYNWYD gohirio penderfyniad tra y gellir ymchwilio i brosiect ehangach, a allai gynnwys larymau personol ar gyfer dalwyr ciosg yn y WiFi .

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 p.m

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR